# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 05-06 (p4)

### Dyddiad y cyfarfod: 5 Gorffennaf 2006
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Awdurdod Datblygu Cymru: Adroddiad Blynyddol 2005/06; Bwrdd Croeso Cymru: Adroddiad Perfformiad Blwyddyn Gyfan 2005/06: Crynodeb Prif Grwp Gwariant Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth o Wariant Alldro Dros Dro 2005/06

#### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir i Adroddiad Blynyddol 2005/06 (Atodiad A) Awdurdod Datblygu Cymru ac Adroddiad Perfformiad Blwyddyn Gyfan 2005/06 (Atodiad B) Bwrdd Croeso Cymru. Amgaeir hefyd grynodeb o wariant alldro dros dro 2005/06 o ddarpariaeth y Prif Grwp Gwariant Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Atodiad C).

2. Darperir yr Adroddiadau i'r Pwyllgor er gwybodaeth a bydd Swyddogion ar gael i ddarparu gwybodaeth bellach a phwyntiau o eglurhad:

#### Crynodeb

3. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol 2005/06 Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), ac Adroddiad Perfformiad Blwyddyn Gyfan 2005/06 Bwrdd Croeso Cymru (WTB) gerbron y Pwyllgor i amlinellu perfformiad yn erbyn y targedau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

4. Mae'n ofynnol i'r WDA baratoi adroddiad cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd bob blwyddyn gyfrifo, sy'n delio gydag gweithrediadau'r Asiantaeth yn ystod y flwyddyn honno, ac mae Adran 4.4.1 Datganiad Rheoli'r WDA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth gyflwyno adroddiad blynyddol o'i weithgareddau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

5. Mae Memorandwm Ariannol y WTB o dan baragraff 7.1.2., yn ei gwneud yn ofynnol i'r WTB gyflwyno adroddiad adolygiad blynyddol cyffredinol i'r Gweinidog yn dangos cynnydd/alldro yn erbyn dangosyddion perfformiad y cytunir arnynt.

6. Yn y blynyddoedd blaenorol mae ffigurau gwariant alldro dros dro 2005-06 ar gyfer Prif Grwp Gwariant Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Atodiad C) wedi'u hatodi i'r Papur Blaenoriaethau Cyllideb a ystyriwyd yng nghyfarfod Pwyllgor MARh ar 7 Mehefin 2006. Gan fod Adroddiadau Blynyddol y WDA a'r WTB wedi'u hamserlennu ar gyfer cyfarfod Pwyllgor MARh ym mis Gorffennaf fe'i hystyriwyd yn fwy priodol atodi'r gwariant alldro dros dro ar gyfer diwedd y flwyddyn i'r cyflwyniad hwn er mwyn darparu darlun mwy cyflawn o'r flwyddyn flaenorol.

## Amserlen

7. Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol y WDA ac Adroddiad Perfformiad y WTB gyda chyfrifon ariannol ym mis Gorffennaf 2006.

## Y Cefndir

8. Mae'r Adroddiadau yn rhoi crynodeb o berfformiad y WDA (Atodiad A) a'r WTB (Atodiad B) yn erbyn eu targedau strategol a gweithredol ar gyfer 2005/06.

9. Daeth yr archwiliad diweddar o'r systemau adrodd ar berfformiad, a nodwyd gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2006, i'r casgliad fod y fframwaith adrodd ar ddangosyddion perfformiad, a ddefnyddir ym mhob sefydliad, yn gadarn ac yn galluogi'r rheolwyr i fonitro perfformiad ac i gymryd camau unioni. Mae gan bob sefydliad broses glir ar gyfer pennu targedau, eu monitro ac adrodd ar gyflawniadau ac ar y cyfan mae'n gyson wrth gyflwyno ffigurau o flwyddyn i flwyddyn. Yn sgil yr uno, mae nifer o faterion yn ymwneud â chysondeb yn cael eu hadolygu.

10 O galyniad i'r uno, dyma'r tro olaf y bydd Adroddiad Blynyddol y WDA neu adroddiad perfformiad y WTB yn cael ei ddarparu a'i gyhoeddi yn y dull hwn. Yn y dyfodol, bydd Adroddiad Blynyddol MARh yn cael ei gyflwyno i'w nodi gan y Pwyllgor MARh. Darperir adroddiadau hanner blwyddyn hefyd.

11 Ar 8 Rhagfyr 2005, cyflwynwyd adroddiad hanner blwyddyn y WDA gerbron y Pwyllgor a thynnwyd sylw at y newidiadau i'r mesuriadau perfformiad am y flwyddyn. Y rhain oedd: Cyflwyno diffiniadau o dargedau strategol sydd wedi'u hadolygu a'u diwygio (y ddau gategori yr effeithir arnynt fwyaf gan y newidiadau hyn yw swyddi a grëwyd a buddsoddiad sector preifat); cyflwyno nodau targed yn hytrach na ffigurau absoliwt yn unol ag arfer gorau mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus; ac adrodd ar allbynnau yn gyfnodol er mwyn adlewyrchu sut mae'r cwmni'n cyflawni yn unol â'i gynlluniau busnes.

12. Yn yr un modd cyflwynodd y WTB eu hadrodddiad hanner blwyddyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr gan gadarnhau cynnydd yn erbyn y targedau y cytunir arnynt am y flwyddyn.

## Y Goblygiadau Ariannol

13. Mae crynodeb o Ddatganiad Ariannol y WDA ar ei ffurf ddrafft, a bydd yn agored i gliriad terfynol yn unol â'r datganiadau ariannol llawn gan yr Archwilwyr ganol fis Gorffennaf ac yn cael ei lofnodi gan yr Ysgrifennydd Parhaol cyn ei gyhoeddi.

14. Mae cyfrifon y WTB yn agored i amserlen a phroses debyg.

## Themâu Trawsbynciol

15. Mae Adroddiad Blynyddol y WDA yn cynnwys Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n berthnasol i'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y Flwyddyn. Mae gan Adroddiad Perfformiad y WTB hefyd ddatganiad tebyg mewn perthynas â'u gweithgareddau sy'n ymwneud â diwedd blwyddyn.

**Camau i'w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

15. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi Adroddiad Blynyddol 2005/06 y WDA, Adroddiad Perfformiad Blwyddyn Gyfan 2005/06 y WTB a Chrynodeb o wariant alldro dros dro 2005/06 Prif Grwp Gwariant Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

**Andrew Davies**
**GWeinidog,**
**Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**

Swyddogion Cyswllt:
Grwp Polisi a Strategaeth MARh Eleanor Knight Est 8873
Polisi a Strategaeth MARh (WTB) Helen Davies Est 5357
Uned Fusnes MARh- Mark Osland Est 8658

Atodiad A: Adroddiad Blynyddol 2005/06 Awdurdod Datblygu Cymru
Atodiad B: Adroddiad Perfformiad Blwyddyn Gyfan 2005/06 Bwrdd Croeso Cymru
Atodiad C: Crynodeb o wariant Alldro Dros Dro 2005/06 ar gyfer
Prif Grwp Gwariant Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

E-BOSTIWCH BLWCH Y PWYLLGOR AM GOPIAU O ATODIAD A, B a C : economic.comm@wales.gsi.gov.uk